
# Dogfen Ymgysylltu Cynnar

## Yn ceisio safbwyntiau ar Ddarpariaeth Addysg yn ardal Saltney a Brychdyn



`

## Pam ydym yn gofyn am eich barn?

Mae Cyngor Sir y Fflint yn adolygu ei ddarpariaeth ar gyfer addysg ar draws y sir yn rheolaidd ac mae wedi ymrwymo'n gadarn i ddatblygu a gwella ei ysgolion er budd dysgwyr Sir y Fflint.

Mae'r Cyngor yn anelu i wneud hyn drwy:

- Gyflwyno cais am fuddsoddiad ariannol sylweddol gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'i raglen buddsoddiad cyfalaf i adeiladu ysgolion newydd 'o'r radd flaenaf' ar gyfer cymunedau lleol.
- Cefnogi ysgolion i'w cynorthwyo i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr i gyflawni eu potensial drwy addysgu a dysgu o ansawdd uchel.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor weithio o fewn ei adnoddau ariannol, ac yn yr hinsawdd economaidd bresennol mae yna heriau sylweddol i ddarparu rhaglenni newid, yn arbennig pan mae chwyddiant cynyddol yn effeithio ar gyllidebau a chostau prosiect adeiladu yn sylweddol uwch.

Mae'n allweddol ein bod ni, fel y Cyngor, yn gweithio'n agos gyda chi fel cymunedau Saltney a Brychdyn i ddatblygu cynllun sy'n cyflwyno strategaeth newydd ar gyfer addysg yn yr ardal sy'n gynaliadwy, ac yn cyflawni'r amcan cyffredinol o ddarparu'r addysg gynradd ac uwchradd gorau posib' ar gyfer dysgwyr yn yr ardal, ac sy'n fforddiadwy. Rydym eisiau sicrhau bod y cynnig addysg lleol yn cael ei danategu gan wasanaethau pwysig eraill sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd e.e. gofal plant, addysg blynyddoedd cynnar, gwasanaethau ieuenctid a darpariaeth chwaraeon a hamdden.

Y cam cyntaf yw i ni ymgysylltu gyda chi yn gynnar yn y broses i geisio eich barn. Diben yr ymarfer ymgysylltu cynnar hwn yw:-

- Rhannu barn bresennol y Cyngor am ddarpariaeth addysg bosibl yn yr ardal yn y dyfodol gyda budd-ddeiliaid allweddol.
- Cynnal sgwrs agored am yr amrywiol heriau wrth ddarparu model darpariaeth newydd.
- Deall barn cymunedau lleol a cheisio eu hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth adeiladol gyda'r Cyngor, i gyflawni model darpariaeth newydd sy'n arwain at y cyfleusterau gorau i gefnogi deilliannau cadarnhaol ar gyfer dysgwyr o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael.

## Beth yw sefyllfa'r Cyngor?

Mae niferoedd disgyblion yn ardal Saltney/Brychdyn wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn golygu, ar hyn o bryd, nad yw niferoedd y disgyblion, yn enwedig o safbwynt addysg uwchradd, yn cyfiawnhau buddsoddiad sylweddol. Oni bai bod newid a bod niferoedd disgyblion yn cynyddu, efallai y bydd dyfodol hirdymor rhai o'r ysgolion yn yr ardal mewn perygl gan na fyddent yn gynaliadwy o safbwynt ariannol, a bydd hyn yn cael effaith negyddol ar ansawdd yr addysg a gynigir.

`

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i gynnal ystod o ddarpariaethau ysgolion yn ardal Saltney / Brychdyn ond yn cydnabod efallai na fydd yn bosibl i hyn barhau fel y mae ar hyn o bryd. Mae angen i ni roi cynlluniau ar waith i fuddsoddi mewn adeiladau modern, i ddarparu cynnig addysg o ansawdd uchel ar gyfer pob oedran, a sicrhau bod llwybrau priodol i ddysgwyr i symud ymlaen o flynyddoedd cynnar, drwy addysg gynradd ac uwchradd ac yna i ddarpariaeth ôl-16, i roi'r cyfleoedd gorau posibl i'n plant a'n pobl ifanc.

Y gobaith yw y bydd darparu cynllun newydd ar gyfer addysg yn yr ardal yn ysgogi twf yn niferoedd y disgyblion. Ond, ni all y Cyngor gyflawni'r newid ar ei ben ei hun. Bydd angen cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ac i gynyddu ei siawns o sicrhau cyllid, bydd angen dangos bod cynllun cydlynol sy'n gwella darpariaeth addysg yn yr ardal ac sydd â chefnogaeth cymunedau lleol.

Mae cynaliadwyedd yr ysgolion yn yr ardal yn y dyfodol hefyd yn dibynnu ar gefnogaeth y gymuned leol e.e. rhieni / gofalwyr, arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr, cynghorwyr sir, cynghorwyr tref a chymuned, busnesau lleol a phreswylwyr. Mae gofyn i ni gyd weithio gyda'n gilydd i ddatblygu cynnig i ddysgwyr sy'n eu cadw'n lleol.

Roedd cynnig i adeiladu ysgol uwchradd newydd yn yr ardal yn rhan o Raglen Amlinellol Strategol y Cyngor sawl blwyddyn yn ôl, ond heb ymrwymiad ac ymgysylltiad cadarnhaol gan y gymuned, lle bo rhieni / gofalwyr yn gwneud y dewis i anfon eu plant i'r ysgol uwchradd leol yn Sir y Fflint, mae perygl na fydd y Cyngor yn llwyddiannus yn y broses achos busnes i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i adeiladu'r ysgol. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu mwyafrif yr arian i adeiladu ysgolion newydd ac mae'n rhaid i'r Cyngor ganfod y gweddill. Gan na all y Cyngor fforddio i adeiladu ysgolion newydd gyda'i adnoddau ariannol ei hun yn unig mae'n dibynnu ar dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Y datrysiad i'r her o gadw dysgwyr yn lleol yw:-

- Bod gan rieni Sir y Fflint hyder yn ansawdd y cynnig addysg lleol i ddewis yr ysgol agosaf atynt yn y sir.
- Amgylchedd ysgol o ansawdd
- Gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r ysgol i gefnogi teuluoedd e.e. gofal plant, darpariaeth ieuenctid, chwaraeon a hamdden.

Heb gefnogaeth glir gan y gymuned ar gyfer eu hysgolion lleol, ni fydd prosiect buddsoddi mawr gan Lywodraeth Cymru a'r Cyngor yn debygol.

## Beth yr ydym yn ei wybod am niferoedd disgyblion yn yr ardal

### Y Sector Cynradd

Ym mis Medi 2022, roedd 789 disgybl cynradd llawn-amser mewn tair ysgol gynradd a gynhelir gan y cyngor yn yr ardal; Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood gyda 150 o ddisgyblion llawn amser, Ysgol Gynradd Saltney Ferry gyda 117 o ddisgyblion llawn-amser ac Ysgol Gynradd Brychdyn gyda 522 o ddisgyblion llawn-amser.

`

Mae Ysgol Gynradd Gatholig St Anthony yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir sy'n cael ei chynnal gan Esgobaeth Gatholig Wrecsam, felly **ni fydd** yn cael ei hystyried yn y broses ymgysylltu cynnar.

Gall fod yn heriol cynnal ysgolion cynradd bach oherwydd cyfyngiadau ariannol yn sgil niferoedd isel y disgyblion ac mae'r ddemograffeg bresennol yn nodi bod llai o blant oedran cynradd ar draws ardal Sir y Fflint. Mae gan ysgolion cynradd mwy o faint fwy o wydnwch a dewisiadau i ddarparu addysg mewn modd sy'n fwy effeithlon, sy'n golygu bod mwy o gyllid yn cael ei wario'n uniongyrchol ar ddarpariaeth i ddysgwyr yn hytrach na chostau adeiladau a rheoli ac ati.

Yn ardal Saltney/Brychdyn, mae niferoedd disgyblion cynradd yn eithaf iach a chynaliadwy.

**Y Sector Uwchradd**

Ym mis Medi 2022 roedd 323 o ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney.

Yn ddelfrydol, mae angen isafswm o 600 o ddisgyblion mewn ysgol uwchradd i roi digon o gyllid i'w gweithredu. Mae data'r boblogaeth sydd gennym yn dangos bod digon o niferoedd o ddisgyblion oedran ysgol uwchradd yn yr ardal i gyflawni'r ffigwr o 600 o ddisgyblion. Ond, mae rhieni lleol yn dewis derbyn addysg uwchradd mewn lleoliadau eraill, gan ostwng niferoedd y disgyblion yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant a chyllid yr ysgol.

Er bod cyfraddau trosglwyddo o Ysgol Gynradd Saltney Wood a Saltney Ferry i Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn rhesymol, nid yw'r cyfraddau trosglwyddo i Ysgol Uwchradd Dewi Sant o Ysgol Gynradd Brychdyn (yr ysgol gynradd fwyaf yn yr ardal) cystal. Mae hyn yn effeithio ar niferoedd yr ysgol uwchradd ac felly ar gyllid fesul disgybl a ddyrennir i Ysgol Uwchradd Dewi Sant.

## Beth yw'r dewisiadau?

Er bod y Cyngor wedi ystyried y dewisiadau ar gyfer yr ardal, mae cyfyngiadau oherwydd cyllid, argaeledd tir adeiladu, a pherygl llifogydd y tir sydd ar gael, ac mae'n rhaid ystyried yr holl elfennau hyn. **Nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau pendant o ran dyfodol darpariaeth gynradd ac uwchradd yn ardal Saltney.** Nid oes bwriad i newid y ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Brychdyn a fydd yn parhau fel ysgol ar wahân ar ei safle ei hun. Bydd yr ysgol yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r ysgolion eraill yn yr ardal fel y mae ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor wedi nodi rhai dewisiadau lefel uchel ar gyfer addysg gynradd ac uwchradd yn yr ardal. Byddai angen cyflawni rhagor o waith manwl i archwilio eu hyfywedd, ond mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn dryloyw am beth yw'r dewisiadau hyn a rhoi cyfle i gymunedau lleol gyflwyno eu safbwyntiau. Yna byddai'r wybodaeth yn cael ei ddwyn ynghyd i benderfynu beth fyddai'r dewis terfynol a ffefrir. Yna byddai proses ymgynghori statudol gyda'r holl fudd-ddeiliaid, mae'n rhaid cynnal y broses hon pan fo cynigion ar gyfer unrhyw newid i drefniadaeth ysgolion. Mae'r dewisiadau i'w hystyried yn cynnwys:

`

- Gwneud dim - ysgolion i barhau fel ag y maent, a mynd i'r afael â materion cynnal a chadw fel maent yn codi. Mae buddsoddiad ariannol yn cael ei ddarparu i ysgolion yn eu cyllidebau er mwyn cwblhau gwaith atgyweirio a chynnal a chadw fel sy'n digwydd rŵan.

- Gwneud y lleiafswm i gael gwared â'r ôl-groniad o broblemau cynnal a chadw. Ysgolion unigol i barhau fel ag y maent. Mynd i'r afael â materion cynnal a chadw drwy Raglen Buddsoddiad Cyfalaf y Cyngor, os yw cyllid yn caniatáu.

- Adnewyddu ac ymestyn adeiladau ysgolion presennol. Ysgolion unigol i barhau fel ag y maent. Bodloni costau adnewyddu drwy Raglen Buddsoddiad Cyfalaf y Cyngor a buddsoddiad Llywodraeth Cymru.

- Adeiladu Campws 3 - 16 i gynnwys Ysgol Uwchradd Dewi Sant a chyfuno Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, gan arwain at un ysgol uwchradd ac un ysgol gynradd ar yr un safle. *Yr unig dir sydd gan y Cyngor i ddarparu hyn yw Bretton, ond mae nifer o heriau ar y safle gan gynnwys perygl llifogydd, materion mynediad, ac mae'n bell o Brychdyn a Saltney.*

- Adeiladu Ysgol Gydol Oes 3 - 16. Cyfuno Ysgol Uwchradd Dewi Sant ac Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood gan greu ysgol newydd ar yr un safle ar gyfer holl ddysgwyr yn yr ystod oedran hwn. Yr unig dir y gall y Cyngor ddarparu hyn yw Bretton, sy'n cynnwys yr heriau a nodwyd uchod.

- Adeiladu Ysgol Uwchradd 11-16 newydd i Ysgol Uwchradd Dewi Sant ar safle Bretton ac adeiladu Ysgol Gynradd 3-11 newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ar hen safle Ysgol Uwchradd Dewi Sant.

- Gwneud y penderfyniad anodd i ymgynghori ar gau Ysgol Uwchradd Dewi Sant gan nad yw'r niferoedd yn gynaliadwy a darparu cynnig addysg uwchradd i ddysgwyr yn yr ardal yn rhywle arall yn Sir y Fflint.

*Pe byddai penderfyniad yn cael ei wneud i gau Ysgol Uwchradd Dewi Sant ac os fydd disgyblion yn cael cynnig darpariaeth uwchradd yn rhywle arall, gall Ysgol gynradd 3-11 newydd gael ei hadeiladu ar gyfer Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ar safle presennol Ysgol Uwchradd Dewi Sant.*

## Trosolwg o berfformiad cynradd ac uwchradd yn yr ardal

Arolygwyd Ysgol Gynradd Brychdyn gan Estyn ym mis Gorffennaf 2019. Derbyniodd yr ysgol ddyfarniad Rhagorol ym mhum maes yr arolwg ac fe'u gwahoddwyd gan Estyn i gyhoeddi astudiaeth ar eu gwaith yn ymwneud â chyfranogiad disgyblion i gynllunio eu dysgu.

`

Arolygwyd Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood gan Estyn ym mis Mawrth 2020. Derbyniodd yr ysgol ddyfarniad Da ym mhum maes yr arolwg.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Saltney Ferry gan Estyn ym mis Medi 2022, o dan eu fframwaith arolygu diwygiedig. Er nad yw Estyn yn darparu dyfarniad ar gyfer meysydd arolygu mwyach, nododd yr arolygwyr bod angen gwelliant sylweddol yn yr ysgol. Mae'r Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) yn cefnogi'r ysgol i fynd i'r afael ag argymhellion Estyn. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol am 12 mis ar ôl cyhoeddi eu hadroddiad.

Arolygwyd Ysgol Uwchradd Dewi Sant gan Estyn ym mis Rhagfyr 2016 ac fe nodwyd ar y pryd bod angen gwelliant sylweddol. Bu i Estyn ail-ymweld ym mis Mehefin 2018 a chanfod fod yr ysgol wedi cyflawni cynnydd sylweddol i gael eu tynnu o'r categori. Ers hynny mae'r ysgol wedi parhau i dderbyn cefnogaeth wedi'i dargedu gan yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, GwE, ar gyfer eu taith o welliant parhaus. Mae Cynllun Gwella Ysgol ar gyfer Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn uchelgeisiol ar gyfer ei disgyblion.

Nid yw data cyrhaeddiad na data perfformiad ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 mewn ysgolion uwchradd wedi'i gyhoeddi ers 2019 oherwydd y pandemig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd trefniadau adrodd data cymwysterau Cyfnod Allweddol 4 yn ail-ddechrau ym mlwyddyn academaidd 2022 i 2023 ar ffurf y mesurau dros dro a gyflwynwyd ac a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2019. Bydd data canlyniadau cymwysterau Cyfnod Allweddol 4 ar lefel ysgol ar gael yn https://www.llyw.cymru/fy-ysgol-leol-canllaw.

Fel rhan o raglen sylweddol i ddiwygio addysg sydd ar waith yng Nghymru, mae'r holl ddata perfformiad ysgol, gan gynnwys canlyniadau arholiadau, yn cael eu dadansoddi ar lefel leol i gefnogi ysgolion i ddatblygu eu blaenoriaethau gwella unigol.

Ni chyflawnwyd proses o gategoreiddio ysgolion ym mlynyddoedd academaidd 2020/21 a 2021/22 yn ystod pandemig Covid-19 ac mae wedi'i ddisodli yn awr gan drefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd newydd ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac Estyn. Mae'r canllawiau gwella ysgolion newydd yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran sut y dylid cyflwyno gwelliannau ysgolion yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru. Wrth symud ymlaen, bydd crynodebau Cynlluniau Datblygu Ysgolion yn cynnwys crynodeb o hunanwerthusiad yr ysgol, gan gynnwys cryfderau a meysydd i'w gwella. Bydd hyn yn ffurfio rhan o grynodeb ehangach y cynllun datblygu ysgol, a gyhoeddir ar wefan yr ysgol, ac yn hygyrch i'r gymuned ehangach ac yn parhau i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni a dysgwyr am eu hysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diweddaru'r canllawiau, gan ategu at ddysgu yn 2022 i 2023 a 2023 i 2024, a'i gyflwyno fel dogfen statudol i ddod i rym ym mis Medi 2024.

## Ffactorau cadarnhaol i gefnogi newid yn yr ardal

- Yn ardal Saltney a Brychdyn mae digon o ddisgyblion oedran uwchradd i gynnal ysgol uwchradd leol os yw rhieni yn dewis gwneud hynny.

`

- Mae tystiolaeth leol a chenedlaethol yn dangos bod buddsoddiad mawr mewn ysgolion newydd yn cynyddu'r galw lleol.

- Mae gwasanaethau allweddol eraill yn yr ardal i gefnogi'r gymuned e.e. cylch chwarae lleol, darpariaeth clwb ieuenctid CSFf, dewisiadau chwaraeon a hamdden a allai elwa o gyfleusterau ysgol newydd yn yr ardal.

- Mae economi leol gref gyda'r potensial i atgyfnerthu'r cysylltiadau gyda'r diwydiannau cyfagos i ysbrydoli llwybrau cynnydd ar gyfer dysgwyr a chefnogi datblygiad cwricwlwm lleol.

- Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru (2022) yn darparu cyfle sylweddol i ddatblygu cwricwlwm cyfannol ond lleol sy'n diwallu anghenion dysgwyr a diwydiant yn yr ardal.

- Mae darpariaeth ôl-16 yng Ngholeg Cambria ac agenda Ehangu Cyfranogiad ym Mhrifysgol Glyndŵr yn darparu cyfle unigryw i ddatblygu rhaglenni lleol i annog dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u cymwysterau ymhellach a llwybrau i addysg bellach / addysg uwch / prentisiaethau ac ati.

## Sut allaf leisio fy marn?

Cynhyrchwyd y ddogfen ymgysylltu cynnar i egluro pam fod y Cyngor yn adolygu darpariaeth addysg yn yr ardal ac mae holiadur i bobl ymateb a chyflwyno eu safbwyntiau. Mae'r wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor drwy'r ddolen gyswllt ganlynol: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx

Mae fersiynau print bras, Braille, fersiynau mewn ieithoedd eraill a chopïau caled o'r dogfennau hyn ar gael ar gais gan y Tîm Moderneiddio Ysgolion. Gallwch gysylltu â'r Tîm drwy:

- Ysgrifennu at y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3TX;
- Anfon e-bost at: 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk; neu
- Ffonio 01352 704018 neu 01352 702188.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael, rhowch wybod i ni beth yw eich barn drwy:

- Lenwi copi electronig o'r holiadur drwy ddilyn y ddolen gyswllt hon: https://www.smartsurvey.co.uk/s/Z334AG/

Dilynwch y Cod QR

Llenwi copi papur o'r holiadur a'i bostio yn y blychau casglu a ddarperir yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Ysgol Gynradd Saltney Ferry, Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac Ysgol Gynradd Brychdyn.

- Llenwi copi papur o'r holiadur a'i ddychwelyd i'r Tîm Moderneiddio Ysgolion yn y cyfeiriad uchod; neu e-bostio atom ar 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd yr holl ymatebion o'r arolwg anffurfiol hwn yn cael eu cyfuno mewn adroddiad i Gabinet y Cyngor. Bydd y Cabinet yn adolygu'r ymatebion gan y gymuned ac yn datblygu beth sy'n digwydd nesaf.

## Beth yw'r terfynau amser dangosol?

| Cam Gweithredu | Dyddiad |
|---|---|
| Proses ymgysylltu cynnar yn dechrau gan geisio safbwyntiau'r gymuned | 6 Mehefin i 3 Gorffennaf 2023 |
| Cyhoeddi adroddiad ymgysylltu cynnar a'r Cabinet i ystyried y camau nesaf | I'w gadarnhau |